

Disgrifiad Swydd

Teitl y Swydd	Rheolwr Cofrestredig – Llety Diogel i Blant
Gwasanaeth	Porth Gofal
Graddfa	12
Pwynt/iau Cyflog	35 -37
Cyflog	£43,421 - £45,441
Pwrpas y Swydd	Bydd y Rheolwr Cofrestredig yn gosod cyfeiriad gweithredol y ddarpariaeth a bydd yn goruchwyllo'r gwaith o redeg y gwasanaeth a ddarperir mewn modd effeithiol gan fodloni'r datganiad o ddiben ac anghenion y plant a'r bobl ifanc fel y'u nodir yn y cynlluniau gofal a chymorth.
Lleoliad	Penmorfa, Aberaeron
Oriau Gwaith	37 awr yr wythnos
Math o Gytundeb	Llawn-amser
Hyd y Cytundeb	Parhaol
Teitl swydd y Rheolwr Llinell	Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Uniongyrchol
Cyfrifoldebau Goruchwyllo / Rheoli	Bod yn Rheolwr Llinell ar aelodau eraill o staff
Atebolrwydd	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygir y disgrifiad swydd hwn gyda deiliad y swydd bob blwyddyn. • Bydd y dyletswyddau yn cynnwys sifftiau rheolaidd yn y bore a'r hwyr gan gynnwys gwaith dros benwythnosau. Gall y dyletswyddau hefyd gynnwys gwaith dros nos yn achlysurol. • Os bydd argyfwng, mae'n bosib y bydd gofyn i chi weithio yn un o sefydliadau eraill y Cyngor Sir yng Ngheredigion. Rhoddir hyfforddiant priodol mewn meysydd nad yw'r ymgeiswyr yn gyfarwydd â nhw (e.e. rheoli ariannol, defnyddio cyfrifiaduron, Technoleg Gynorthwyl).
Telerau Cytundebol sy'n Gysylltiedig â'r Swydd	<p>Mae'n bosib y bydd yr Uwch Reolwyr yn dweud wrthyhch am weithio yn un o Gartref Gofal Preswyl yr Awdurdod Lleol ar fyr rybudd os bydd angen sicrhau diogelwch y gwasanaethau.</p> <p>Mae diogelu ac amddiffyn oedolion mewn perygl a phlant yn flaenoriaethau allweddol i ni. Ein nod yw cefnogi oedolion mewn perygl, plant a phobl ifanc er mwyn sicrhau eu bod mor ddiogel ag y gallant fod. Rydym yn cydnabod eu hawl i gael eu diogelu a byddant yn cymryd camau i ddiogelu eu lles. Disgwylir i bob aelod o staff a gwirfoddolwr rannu'r ymrwymiad hwn, a bydd arnom angen Gwiriad Manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), y Swyddfa Cofnodion Troseddol gynt cyn penodi i'r swydd hon.</p>

Dyletswyddau a chyfrifoldebau

- Cydlynu'r gwaith o gynllunio ar gyfer sefydlu llety plant ar draws Ceredigion yn seiliedig ar anghenion y sir heddiw ac yn y dyfodol gan roi'r cynlluniau hyn ar waith.
- Ar y cyd â'r rheoleiddiwr Arolygiaeth Gofal Cymru, cyfrannu ar lefel weithredol at y cynlluniau ar gyfer datblygu'r cyfleusterau gan ystyried anghenion y sir.
- Cydweithio â gwasanaethau eraill o fewn yr Awdurdod Lleol e.e. Addysg, Iechyd a Diogelwch, Gwasanaethau Eiddo.
- Cydweithio ag awdurdodau cyfagos gan rannu gwybodaeth, profiad a chyfleoedd.
- Rheoli'r gwasanaeth a ddarperir er mwyn sicrhau y cyflawnir anghenion a chanlyniadau pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n briodol i'r swydd, yn ôl y galw.
- Goruchwyllo pob agwedd ar y gwaith o redeg y cartref o ddydd i ddydd. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod rotas y staff yn cael eu diweddarau a bod digon o staff ar gael ar bob adeg. Wrth wneud hyn, bydd angen ystyried y staff sy'n sâl a'r staff sydd ar wyliau. Cymryd rhan yn y gwaith o drefnu'r rotas gwaith lle bo hynny'n berthnasol gan fod yn gyfrifol am reoli'r system rotas yn gyffredinol.
- Arwain ar y gwaith o recriwtio, sefydlu a hyfforddi staff gan sicrhau bod digon o staff cymwys, medrus a phrofiadol sydd wedi derbyn yr hyfforddiant perthnasol ar gael i weithio yn y Cartref Gofal.
- Sicrhau bod y staff yn hollol ymwybodol o bolisiau, arferion a gweithdrefnau'r cartref plant. Darparu goruchwyliaeth a hyfforddiant o ansawdd uchel i'r holl staff er mwyn caniatáu iddynt ddysgu a chael datblygiad proffesiynol parhaus.
- Rheoli cyllideb y Cartref Gofal yn ddoeth gan ddilyn polisiau a gweithdrefnau Cyngor Sir Ceredigion.
- Sicrhau bod y Cartref Gofal yn gweithredu yn unol â'r arferion gorau yn rhyngwladol ac yn genedlaethol a'i fod yn cadw at yr holl ddeddfwriaeth a rheoliadau perthnasol gan gynnwys Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau a deddfwriaeth newydd o ran ymarfer gofal plant.
- Rheoli ymddygiad plant a phobl ifanc (yn unigol ac mewn grwpiau) yn briodol yn unol â chanllawiau Arolygiaeth Gofal Cymru.
- Sicrhau bod sylw dyledus yn cael ei roi i ofynion iechyd a diogelwch wrth ymgymryd â holl weithgareddau'r Cartref gan gynnal asesiadau risg lle y bo hynny'n briodol. Bod yn gyfrifol am iechyd, diogelwch a lles yr holl staff a phobl ifanc.
- Sicrhau bod safonau uchel o ofal corfforol, hylendid, diogelwch a lles yn cael eu darparu i bob person ifanc gan hybu hyn. Sicrhau bod y croeso yn y cartref yn gynnes a bod modd, yn sgil hynny, fodloni anghenion emosiynol, cymdeithasol, addysgol, diwylliannol ac ysbrydol y bobl ifanc yn unigol a chaniatáu i'r gwaith tîm ymhlith y staff ffynnu.
- Cynorthwyo â'r gwaith o baratoi canllawiau ar gyfer rhoi meddyginiaeth gan ddilyn y canllawiau hyn a'u rhoi ar waith fel y bo'n briodol.
- Cadw cofnodion achosion ac ysgrifennu adroddiadau yn unol â'r gweithdrefnau gan sicrhau bod yr holl staff yn cadw cofnodion priodol.
- Bod yn gyfrifol am broses baru'r Cartref. Sicrhau bod y gwaith o gynllunio a pharatoi ar gyfer derbyn pobl ifanc i'r Cartref a'u rhyddhau o'r Cartref yn cael ei wneud, a helpu â'r gwaith o asesu anghenion yn ôl y gofyn, gan annog pobl ifanc i fod yn rhan o'r broses gynllunio fel y bo'n briodol.
- Gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd a gofalwyr y plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal yn y cartref gan gyflawni nodau ac amcanion cynlluniau gofal a chymorth y plant a'r bobl ifanc. Ar y cyd â'ch cydweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill, helpu â'r gwaith o baratoi

cynlluniau unigol ac asesiadau risg ar gyfer pobl ifanc. Trefnu adolygiadau, cynadleddau achos a chyfarfodydd cynllunio achosion ac unrhyw gyfarfodydd eraill sy'n angenrheidiol gan fynd iddynt a chyfrannu atynt.

- Arsylwi ar iechyd, datblygiad a lles emosiynol plant a phobl ifanc gan eu hasesu a'u monitro a chychwyn camau priodol pan fo angen.
- Trefnu ac annog gweithgareddau hamdden sy'n diwallu anghenion a dymuniadau'r plant a'r bobl ifanc sydd yn y cartref gan sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu hannog i ddatblygu sgiliau bywyd a sgiliau cymdeithasol a rhoi'r cyfle iddynt fod yn annibynnol gan ystyried yr hyn sy'n addas i'w hoedran. Bydd hyn hefyd yn eu dysgu i reoli eu hymddygiad eu hunain drwy sefydlu perthynas bwrpasol ac adeiladol gydag eraill a thrwy ddilyn esiampl modelau rôl priodol.
- Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r gymuned leol a'i dylanwadau diwylliannol, ei hadnoddau a'i chyfleusterau.
- Cymryd rhan weithredol yn eich trefniadau datblygu a goruchwyllo eich hunan. Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill, sy'n briodol i'r swydd, fel sy'n rhesymol ofynnol.
- Gweithio yn unol â gofynion Rheoliadau Arolygiaeth Gofal Cymru a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.
- Oherwydd natur y gwaith hwn, mae'r swydd yr ydych yn gwneud cais amdani yn dod o dan Orchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975 (fel y'i diwygiwyd yn 2013). Fel rhan o'r swydd hon, mae gofyn i chi gael gwiriad manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'r swydd hon yn cael ei hystyried yn weithgaredd a reoleiddir o dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 ac felly byddwn yn gwirio'r rhestr o'r bobl hynny sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant.
- Rhoi sylw rhagweithiol i'r polisïau a'r trefniadau iechyd a diogelwch gan sicrhau bod yr arferion o ran gweithio'n ddiogel o'r safon uchaf ar bob adeg.
- Cefnogi egwyddorion ac arferion cyfle cyfartal fel y'u nodir ym Mholisi Cydraddoldeb y Cyngor gan roi'r egwyddorion a'r arferion hynny ar waith.
- Cefnogi gofynion 'Mwy na geiriau': Fframwaith Strategol ar gyfer Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg ym maes lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol.

Manyleb Person

Gofynnol		
<p>Cymwysterau Academaidd / Proffesiynol / Technegol / Galwedigaethol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'n rhaid eich bod wedi'ch cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) fel Rheolwr Cofrestredig i Gartref neu mae'n rhaid eich bod yn barod i gofrestru ag AGC o fewn amser penodol. • Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheolaeth Breswyl Plant a Phobl Ifanc) Cymru a Gogledd Iwerddon neu un o'r cymwysterau blaenorol sy'n cael eu derbyn gan Gofal Cymdeithasol Cymru. • Profiad o reoli prosiectau. • Tystiolaeth o'ch ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol a hyfforddiant parhaus. 	
<p>Sgiliau Ieithyddol Cymraeg</p>	<p>Gwrando/Siarad: Lefel 3 Darllen: Lefel 2 Ysgrifennu: Lefel 2</p>	<p>Rhaid cwrdd a'r sgiliau ieithyddol Cymraeg a nodwyd o fewn dwy flynedd i benodiad</p>
<p>Sgiliau Ieithyddol Saesneg</p>	<p>Gwrando/Siarad: Lefel 5 Darllen: Lefel 5 Ysgrifennu: Lefel 5</p>	<p>Rhaid cwrdd a'r sgiliau ieithyddol Saesneg a nodwyd ar apwyntiad</p>
<p>Sgiliau Ymarferol / Personol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Canolbwyntio ar y plentyn yn ganolog i bob agwedd ar eich gwaith • Ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau o'r ansawdd uchaf a gwneud eich gorau glas i sicrhau gwelliannau parhaus. • Yn hyblyg ac yn hawdd mynd atoch • Yn frwdfrydig ac yn llawn cymhelliad • Ymrwymiad cryf i waith partneriaeth ar draws y sector • Ymrwymiad cryf i weithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd, gofalwyr, darparwyr gwasanaeth a gweithwyr proffesiynol gan hyrwyddo gwasanaethau o'r ansawdd uchaf sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. • Sgiliau cyfathrebu da, yn ysgrifenedig ac ar lafar, ac yn barod i wrando • Y gallu i weithio ar eich liwt eich hunan ac fel rhan o dîm • Y gallu i weithio a meddwl yn strategol • Y gallu i ysgogi unigolion a grwpiau i lwyddo • Yn medru defnyddio pecynnau TGCh Microsoft Office gan gynnwys Word, Excel ac e-bost. • Yn medru cadw cyfrinachedd ar bob adeg • Yn meddu ar drwydded yrru lawn ac yn medru teithio o amgylch y Sir • Y gallu i weithio oriau hyblyg • Ymrwymiad i wella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc • Y gallu i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu polisïau. 	
<p>Profiad Hanfodol</p>	<p>Profiad</p> <ul style="list-style-type: none"> • Profiad helaeth o oruchwylio neu reoli o fewn cartrefi preswyl i blant 	

	<ul style="list-style-type: none"> • Profiad o gynnwys plant, pobl ifanc a'u rhieni yn y gwaith o gynllunio, datblygu a darparu eu gwasanaethau eu hunain. • Profiad mawr o weithio gyda phlant sydd â phrofiad o fod mewn gofal. • Profiad o ddatblygu neu wella gwasanaethau o fewn man lle darperir Gwasanaethau Plant. <p>Gwybodaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwybodaeth ymarferol am y ddeddfwriaeth, y rheoliadau a'r fframwaith polisi presennol sy'n gysylltiedig â chofrestru ac archwilio cartrefi plant yng Nghymru gan gynnwys Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. • Gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o'r ddeddfwriaeth a'r polisiau sy'n llywio gwaith Gwasanaethau Plant yng Nghymru gan gynnwys Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. <p>Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r blaenoriaethau cenedlaethol a lleol sy'n ymwneud â datblygu Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant.</p>
Hyfforddiant/addysg y mae'n ofynnol eu cyflawni/mynd ati i'w cyflawni ar gyfer y swydd	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'n rhaid eich bod wedi'ch cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) fel Rheolwr Cofrestredig i Gartref neu mae'n rhaid eich bod yn barod i gofrestru ag AGC o fewn amser penodol • Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheolaeth Breswyl Plant a Phobl Ifanc) Cymru a Gogledd Iwerddon neu un o'r cymwysterau blaenorol sy'n cael eu derbyn gan Gofal Cymdeithasol Cymru. • Profiad o reoli prosiectau.

Dymunol	
Cymwysterau / Hyfforddiant	<ul style="list-style-type: none"> • Cymhwyster ym maes rheoli prosiectau • Cymhwyster Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol e.e. <i>Team Teach</i>.
Sgiliau Ymarferol / Personol	

Job Description

Post Name	Registered Manager – Children’s Safe Accommodation
Service	Porth Gofal
Grade	12
Spinal Point/s	35-37
Salary	£43,421 - £45,441
Job Purpose	The Registered Manager will set the operational direction and oversee the effective running of the service provision to meet the statement of purpose and children and young people’s needs identified within care and support plans.
Location	Penmorfa, Aberaeron
Hours of Work	37 hours per week
Type of Contract	Full-time
Contract Duration	Permanent
Line Managers Job Title	Corporate Manager – Direct Services
Supervisory/Managerial Responsibilities	Line Management of staff
Accountability	<ul style="list-style-type: none"> • This Job Description will be reviewed annually with the post-holder. • The duties will entail regular morning and evening shifts including weekend work and may entail occasional night work. • You may in an emergency be required to work in another County Council establishment within Ceredigion. <p>Appropriate training will be given in areas of the job which candidates may not be familiar (e.g. financial management, use of computers, Assistive Technology).</p>
Contractual Terms Associated with the Post	<p>“Senior management may direct you to work in any of the Local Authority Residential Care Homes at short notice if there is a safe service issue”</p> <p>Safeguarding and protecting adults at risk and children are key priorities for us. We aim to support adults at risk, children and young people to ensure they are as safe as they can possibly be. We acknowledge their right to protection and will take action to safeguard their welfare. Each member of staff and volunteer is expected to share this commitment, and we will require an Enhanced Check by the Disclosure and Barring Service (DBS), formerly CRB before appointing to this post.</p>

Duties and Responsibilities

- To co-ordinate on the planning and implementation of establishing children's accommodation across Ceredigion based on the current and future needs of the county.
- To have operational input in the development plans of the facilities in conjunction with CIW regulatory and the needs of the county.
- To work in partnership with other sections of the Local Authority e.g. Education, Health and Safety, Property Services.
- To work in collaboration with neighboring authorities sharing knowledge, experience and opportunities.
- To manage the provision in order to ensure that the needs and outcomes of care experienced young people are achieved. To carry out such other duties, appropriate to the post, as may reasonably be required.
- To oversee all aspects of the day to day running of the home. This will include ensuring staffing rotas are maintained and that adequate staffing levels are in place, taking account of staff sickness and annual leave commitments. To participate in rota working arrangements where applicable with overall responsibility for managing the rota system.
- To lead on the recruitment, induction and training of staff to ensure that a sufficient number of suitably qualified, trained, skilled, competent and experienced staff are deployed to work within the Care Home.
- To ensure staff are fully aware of the policies, practices and procedures of the children's home and provide high quality supervision and training for all staff to enable ongoing learning and development.
- To manage the Care Home's budget with prudence and in keeping with Ceredigion County Councils policies and procedures
- To ensure the Care Home operates in accordance with international and national best practice and in keeping with all relevant legislation and regulation including the Social Services and Wellbeing (Wales) Act 2014 and Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016. To keep up to date with new developments and legislation in childcare practice.
- To manage the behaviour of individual and groups of children and young people appropriately and within the guidelines laid down by the Care Inspectorate Wales.
- To ensure that all activities within the Home are carried out with due regard to health and safety requirements, undertaking risk assessments where appropriate and being responsible for the health, safety and welfare of all staff and young people.
- To actively promote, participate in and ensure the provision of high standards of physical care, hygiene, safety and welfare of all young people. To ensure the provision of a warm accepting environment within the home whereby the emotional, social, educational, cultural and spiritual needs of individual young people can be achieved, and in which teamwork amongst staff flourishes.
- To assist with arranging, implementing and acting on guidelines for administration of medication as appropriate.
- To maintain case records and write reports in accordance with procedures and to ensure that all staff maintain appropriate records.
- To be responsible for the Home's matching process. To ensure that planning and preparation for the admission and discharge of young people to and from the Home takes place, and to assist in the assessment of needs as required, encouraging young people to be involved in the planning process as appropriate.
- To work in partnership with families and carers of children and young people looked after in the home in achieving the aims and objectives of the children and young people's care

and support plans. In conjunction with colleagues and other professionals, to assist in the formulation of individual plans and risk assessments for young people. To organise, attend and contribute to reviews, case conferences and case planning meetings and any other meetings that are necessary.

- To observe, assess and monitor children and young people's health, development and emotional well-being, initiating appropriate action when necessary.
- To organise, encourage and share in recreational and leisure activities which meet the needs and wishes of the children and young people in the home and to ensure that young people are encouraged to develop life skills, social skills and age appropriate independence, learning to manage their own behaviour through the establishment of purposeful and constructive relationships and appropriate role modelling.
- To develop detailed working knowledge and understanding of the local community and its cultural influences, resources and facilities.
- To actively participate in own development and supervision arrangements. To carry out such other duties, appropriate to the post, as may reasonably be required.
- To work within Care Inspectorate Wales Regulations and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 Requirements.
- Because of the nature of the work involved the post that you are applying for is covered by the Rehabilitation of Offenders Act 1974 (Exceptions) Order 1975 (as amended in 2013). This position has a requirement for an enhanced DBS check, this position is classed as regulated activity under the Safeguarding of Vulnerable Groups Act 2006 as amended by the Protection of Freedoms Act 2012 and will be subject to a check to the list of those people barred from working with children.
- To address health and safety policies and arrangements in a pro-active manner to ensure that a high standard of safe working practices are maintained.
- To actively support and implement the principles and practice of equality of opportunity as laid down in the Council's Equalities Policy.
- To actively support the requirements of 'Mwy na geiriau' More than just words: A Strategic Framework for Promoting the Welsh Language in Health, Social Services and Social Care'

Job Evaluation Post Ref

JD 1533

Person Specification

Essential		
Academic / Professional / Technical / Vocational Qualifications	<ul style="list-style-type: none"> To be registered with CIW as a Home Registered Manager or willing to register within specified time scale And a Level 5 Diploma in Leadership for Health and Social Care Services (Children and Young People's Residential Management) Wales and Northern Island or a predecessor qualification laid down by Social Care Wales. And experience of project management. And a proven commitment to ongoing professional development and training. 	
Welsh Linguistic Skills	Listening/Speaking: Level 3 Reading: Level 2 Writing Level 2	The Welsh linguistic skills noted must be attained within two years of appointment.
English Linguistic Skills	Listening/Speaking: Level 5 Reading: Level 5 Writing Level 5	The English linguistic skills noted are required on appointment
Practical and personal skills	<ul style="list-style-type: none"> A strong child centered approach to professional practice Commitment to delivery high quality services and striving for continuous improvements. A flexible approachable attitude. Enthusiastic and motivated Strong commitment to cross sector partnership working Strong commitment to working with children, young people and their families, carers, service providers and other professionals to promote good quality outcome focused services. Good communication, written, oral and aural Ability to work on own initiative and as part of a team Ability to work and think strategically Ability to motivate individuals and groups to succeed Competent in using IT Microsoft office packages including word, excel and e-mail. To maintain confidentiality at all times Possesses a full driving license and have the ability to travel around the County Ability to work flexible hours Committed to improve outcomes for children and young people Ability to contribute to policy development. 	
Required Experience	Experience <ul style="list-style-type: none"> Extensive supervisory or managerial experience within residential children's homes Experience of involving children, young people and their parents in the planning, development and delivery of their own services. 	

	<ul style="list-style-type: none"> • Significant experience of working with care experienced children. • Experience of developing or improving services within a Children's Services setting. <p>Knowledge</p> <ul style="list-style-type: none"> • Working knowledge of the current legislation, regulatory and policy framework relating to the registration and inspection of children's homes in Wales Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016. • Through knowledge and understanding of legislation and policy guiding the work of Children's Services in Wales. Social Services and Well-being (Wales) Act 2014. • Knowledge and understanding of current national and local priorities relating to the development of Children's Social Work Services.
<p>Training/education required to be undertaken for the post/worked towards</p>	<ul style="list-style-type: none"> • To be registered with CIW as a Home Registered Manager or willing to register within the specified time scale. • Level 5 Diploma in Leadership for Health and Social Care Services (Children and Young People's Residential Management) Wales and Northern Island or a predecessor qualification laid down by Social Care. • Proven commitment to ongoing professional development and training.

Desirable	
Qualifications / Training	<ul style="list-style-type: none"> • A project management qualification • Positive Behavior Management Qualification e.g. Team Teach.
Practical / Personal Skills	